# Peartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro

Cyfrol 9 Rhifyn 1 Gwanwyn 2012

## Geoglossum atropurpureum – Ffwng newydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i Sir Benfro

Mae pedwar ffwng glaswelltir wedi'u rhestri yn rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae tri o'r rhain wedi'u cofnodi yn Sir Benfro yn y blynyddoedd diwethaf: *Entoloma bloxamii* (Tagell Binc Fawr Las), *Microglossum olivaceum* (Tafod y Ddaear Olew-wyrdd) a Hygrocybe spadicea (Cap Cwyr lliw Datys). Fodd bynnag, mae'r pedwerydd aelod, *Geoglossum atropurpureum* (Tafod y Ddaear Borffor Tywyll) wedi'n hosgoi ni - hyd nawr.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae aelodau o Rwydwaith Cofnodi Ffyngoedd Sir Benfro wedi bod yn cofnodi, casglu a chyflwyno sbesimenau taleb i gefnogi rhaglen bar-codio DNA ffyngoedd sy'n cael ei chynnal gan y Gerddi Botaneg Brenhinol yn Kew. Tymor yr hydref y llynedd, pennwyd yn lleol gasgliad o dafodau daear o Warchodfa Natur Genedlaethol Cwningar Ystangbwll yn un o ddwy rywogaeth brin, ond tebyg iawn i'w gilydd. Anfonwyd y sbesimenau i Kew lle pennwyd mai *Geoglossum atropurpureum* oeddent.




Dylai pobl sy'n ymddiddori'n fawr yn y maes nodi bod yno wyth gwahanol rywogaeth tafod y ddaear wedi eu cofnodi yn Sir Benfro - a phrin yw'r nodweddion i wahaniaethu rhyngddynt mae'r rhan fwyaf yn dibynnu ar ficrosgopeg i wahaniaethu rhyngddynt.

Mae presenoldeb y bedwaredd rywogaeth glaswelltir Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn helpu i gadarnhau ansawdd uchel y "glaswelltir cap cwyr" yn y Sir. Rydym yn edrych ymlaen at ddarganfod rhagor o safleoedd ar gyfer y rhywogaeth hon, sy'n anodd dod o hyd iddi, yn y dyfodol.

**David Harries**
Rhwydwaith Cofnodi Ffyngoedd Sir Benfro

## Yn y rhifyn hwn





Ffwng newydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth i Sir Benfro Tudalen 1
Gwarchodfa Natur Westfield Pill: Porth i Gefn Gwlad Tudalennau 2 - 3
Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy Tudalen 4
Diweddaru Gwefan System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth Tudalen 4
Taith Gerdded Gwenyn 2012 Tudalen 4
Digwyddiadau Bioamrywiaeth Tudalennau 5 - 7
Manylion Cysylltu Tudalen 8


Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

# Gwarchodfa Natur Westfield Pill: Porth i Gefn Gwlad

Mae'r gwelliannau olaf i fynediad gwarchodfa natur Westfield Pill wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bellach, mae'r bobl leol yn gallu beicio a cherdded yn hawdd drwy'r warchodfa heb faglu ar geudyllau a rhannau anwastad a garw o'r llwybr beicio.

Ariannwyd y gwaith hwn gan Gyngor Sir Penfro a fu'n cydweithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth Natur ar bob agwedd ar y prosiect, er mwyn osgoi creu aflonyddwch. Er bod y llwybr newydd yn edrych braidd yn arw ar hyn o bryd, fe fydd yn gweddu i'w amgylchedd yn ddigon buan.


Westfield Pill. Photo: Nathan Walton

Gosodwyd crafion chwarel mân ar ben y bitwmen er mwyn iddo edrych yn well a gwasgarwyd calchfaen ar hyd rhannau o'r llwybr beicio ac ar fannau eraill i annog rhywogaethau megis yr Ytbysen feinddail a'r Glöyn byw bach glas i ailgytrefu ar y safle.

Gwnaethpwyd gwaith tirweddu hefyd i amddiffyn yn well cytref fwyaf Cymru o'r Wenynog. Yn ogystal mae ardal o gynefin nythu adar gwerthfawr wedi ei ffensio a'i chyfyngu i atal y cyhoedd rhag tarfu arni. Mae gan Westfield Pill amrywiaeth da a phresenoldeb pobl yn sicr wedi effeithio ar y rhywogaethau hyn dros y blynyddoedd. Mae dyfrgwn yn nodwedd allweddol arall o'r gadwraeth a gellir eu gweld yn aml ar doriad gwawr neu yn y cyfnos.

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551


Grass Vetchling.
Photo: Nathan Walton

Crëwyd dôl hefyd ar yr hen domen wastraff a fydd yn cael ei rheoli i annog blodau gwyllt i dyfu ac i ddarparu cynefin addas i amrywiaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Mae'r clymog Japan yn parhau i gael ei drin i'w atal rhag lledaenu i'r gadwraeth.

Mae'r llwybrau sydd wedi'u hailwampio wedi galluogi ymwelwyr a chanddynt lai o allu corfforol i gael mynediad gwell i'r safle arbennig hwn ac wedi annog cerddwyr a beicwyr i fentro allan ymhellach o Neyland.

Rydym wedi cael ymateb da gan bobl leol, er bod rhaid i ni bwysleisio o hyd bod angen i gerddwyr cŵn gadw eu hanifeiliaid ar dennyn neu o dan reolaeth gaeth



Photo: Nathan Walton


Photo: Nathan Walton

ar bob cyfrif er mwyn peidio â dychryn y bywyd gwyllt oddi yno.

Er bod yr Ymddiriedolaeth Natur yn annog pobl i ddod i gefn gwlad ac i gael gwybod rhagor am y bywyd gwyllt sydd ar eu stepen drws, mae'r broblem o gŵn yn baeddu yn gwaethygu. Mae Westfield Pill yn un o nifer o warchodfeydd trefol sy'n dioddef o'r broblem hon, ac mae'r rhan fwyaf o'r baw cŵn yn cael ei roi mewn bagiau sydd yna'n cael eu hongian ar y cloddiau ar hyd y llwybr, er y darparir biniau gwastraff wrth fynedfeydd y warchodfa.

Dywedodd Nathan Walton, rheolwr y warchodfa, “Nid wyf am ddweud llawer gan y gallaf fyn yn benboeth iawn wrth drafod y pwnc yma, fodd bynnag, fe fyddai'n well gennyf weld pobl yn symud y gwastraff i ochr y llwybr ac i mewn i'r cloddiau yn hytrach na mynd i'r drafferth o'i roi mewn bag ac yna ei daflu i'r llystyfiant. Serch hynny, rydym wrth gwrs yn croesawu perchnogion cŵn cyfrifol i'n holl warchodfeydd, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n gyfrifol iawn.”

Bu trafod ymysg rhai sefydliadau cadwraeth ynghylch gwahardd cŵn rhag cael mynediad i'r gwarchodfeydd natur. Fe fyddai'n drueni gorfod gweithredu'r mesurau hyn o achos anghwrteisi ambell berchennog cŵn.

Nid yn unig y mae plastig sy'n cael ei adael yng nghefn gwlad yn salw, gall hefyd achosi niwed difrifol i fywyd gwyllt. Enghraifft ddiweddar o hyn yw Hebog tramor a fwytaodd fag plastig ac a fu farw o ganlyniad.

**Nathan Walton**

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru


Small Blue Butterfly.
Photo: Nathan Walton

Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

# Cymerwch Ran – Helpwch Famaliaid yng Nghymru

Mae prosiect y Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy yn gobeithio arolygu cymaint o leoedd â phosibl yng Nghymru gan ddefnyddio'r technegau geneteg diweddaraf i ddarganfod cymaint â phosibl am rai o'r mamaliaid o Gymru sydd yn anoddach dod o hyd iddynt megis Belaod y Coed, Ystlumod, Ffwlbartiaid a Phathewod. Maent yn chwilio am wirfoddolwyr i gynnal arolygon ledled yr ardal. Nid oes angen dim profiad blaenorol. Gallai'r tasgau gynnwys cerdded llwybrau arfordirol ac afonydd yn chwilio am olion Dyfrgwn, monitro tiwbiau blew Gwiwerod Coch a blychau nyth Pathewod, neu arolygon grŵp i chwilio am olion Belaod y Coed mewn coedwigoedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch â Jenny MacPherson ar 07584 415760 (jennymacpherson@vwt.org.uk) neu ewch i www.facebook.com/pages/Mammals-in-a-Sustainable-Environment-MISE/111209228962403?sk=wall

# Swyddog Newydd Gweithredu Bioamrywiaeth

Yn sgil ymadawiad Bethan Cox fis Hydref 2011, fe'm penodwyd i yn Swyddog newydd Gweithredu Bioamrywiaeth i Bartneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. Mae gennyf gefndir yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac rwyf wedi gweithio mewn swyddi mor amrywiol â rheoleiddio amgylcheddol, adeiladu, chwaraeon awyr agored a chwilio ac achub arfordirol.

Nid wyf wedi cwrdd â'r partneriaid i gyd eto, ond rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi i gyd i adeiladu ar lwyddiant cyfnod Bethan yn y swydd.

**Ant Rogers.**



Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

# Diweddaru Gwefan System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth

Ar hyn o bryd, mae'r wefan System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth yn cael ei diweddaru i ddarparu mynediad gwell at wybodaeth am fioamrywiaeth. Bydd y gwaith diweddaru yn dechrau ganol mis Mawrth, ac er na fydd gwybodaeth newydd yn cael ei rhoi ar y wefan yn ystod y diweddariad, bydd yn bosibl o hyd i chi gael mynediad at yr wybodaeth bresennol. Disgwylir i'r wefan newydd fod ar waith rywbryd yn ystod mis Ebrill – gwyliwch allan amdani!

Ewch i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth: http://ukbars.defra.gov.uk/

# Taith Gerdded Gwenyn 2012

Mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth y Gwenyn yn apelio am wirfoddolwyr i gymryd rhan mewn arolwg cenedlaethol o Gacwn i fonitro'r poblogaethau ledled y DU. Bydd y gwirfoddolwyr yn cerdded llwybr 1 – 2 km o'u dewis eu hunain unwaith y mis rhwng mis Mawrth a mis Hydref, gan gofnodi'r rhywogaethau o wenyn y maent yn eu gweld ar hyd y daith yn ogystal â'r blodau y mae'r gwenyn yn porthi arnynt. Cesglir yr wybodaeth yn genedlaethol i gyfrannu at fentrau cadwraeth gwenyn.

I gymryd rhan, anfonwch e-bost i: beewalk@bumblebeeconservation.org
neu ewch i wefan Ymddiriedolaeth Cadwraeth y Cacwn: http://www.bumblebeeconservation.org.uk/

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mawrth-Ebrill 2012

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 20 Mawrth 19.30 | **Magu Adar Ysglyfaethus.** Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri, Penfro | Bydd Paddy Jenks yn siarad am yr adar ysglyfaethus sy'n magu yn Sir Benfro. Drysau'n agor am 7.15pm. Croeso i bawb. Aelodau Natur £1.50, y rhai nad ydynt yn aelodau £2, gan gynnwys lluniaeth. | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Lynda Hickling Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |
| 24 Mawrth 10:30-15:00 | **Grŵp Cerdded yr Arfordir** Hafan Sain Ffred | Taith gerdded arfordirol rhwng Hafan Sain Ffred a Marloes wedi'i threfnu gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Lynda Hickling Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |
| 28 Mawrth – 1 Ebrill | **Cennau yn eu Cynefinoedd** Canolfan Faes Orielton | Cwrs preswyl wedi'i arwain gan Pat Wolseley a Ray Woods a fydd yn cyflwyno rhai o'r cennau cyffredin a mwy anarferol a geir yn Sir Benfro. | Canolfan Faes Orielton Penfro Ffôn: 01646 623920 E-bost: enquiries.or@field-studies-council.org |
| 2 Ebrill 10:30-12:00 | **Saffari Mewn Pwll** Freshwater East | Gweithgaredd llawn hwyl i'r teulu cyfan. Cewch weld a darganfod y bywyd gwyllt rhyfeddol ym mhwll newydd y Parc Cenedlaethol yn Freshwater East. Gwisgwch esgidiau glaw. £3.50 y plentyn, oedolion am ddim. Mae archebu lle yn hanfodol. | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro Ffôn: 01834 845040 |
| 3 Ebrill 19:00 | **Ystlumod Rhagorol** Oriel y Parc, Tyddewi | Teithiau cerdded byr o amgylch adeiladau hanesyddol Sir Benfro i chwilio am ystlumod gyda Craig Stringer. Gwrandewch am ystlumod ar synwyryddion arbennig a chewch ddysgu am eu ffordd o fyw anarferol. Dewch â fflach lampau. Byddai dod â dillad ychwanegol o fudd. Oedolion £5, Consesiynau £2.50 | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro Ffôn: 01834 845040 |
| 10 Ebrill 18:30 | **Grŵp Cerdded yr Arfordir** Maenorbŷr | Taith gerdded ar hyd yr arfordir wedi'i threfnu gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Johnathan Copp Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |


Ant Rogers - Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth
anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk 01437764551

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mawrth-Ebrill 2012

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 11 Ebrill 10:00–12:00 | **Ein Coed Bywyd** Coetir Parc Porthdy Ystangbwll | Ewch am dro gyda'r prif barcmon drwy goetir Parc y Porthdy. Byddwch yn dysgu am y rhywogaethau amrywiol ac anarferol sy'n byw ar yr hen barc difyr hanesyddol hwn a'r ffordd y mae gwaith y Prosiect Ailddarganfod yn bwriadu agor y coetir. Cost o £3 | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ystangbwll. Ffôn 01646 661425 E-bost: stackpoleevents@nationaltrust.org.uk |
| 11 Ebrill 10:00-13:00 | **Dal Crancod** Harbwr Porthclais | Dewch i ddysgu am grancod a'r ffordd o'u dal a gofalu amdanynt. Darparir offer pysgota. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. £3.50 y plentyn, oedolion am ddim. | Oriel y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielyparc.co.uk |
| 14 Ebrill 10:00-16:00 | **Ecoleg Madfall Dŵr Cribog** Parc Slip, Bridgend | Bydd Dr Liz Chadwick yn trafod ecoleg a chadwraeth y Rhywogaeth hon sy'n cael ei Gwarchod gan Ewrop. Bydd hi hefyd yn trafod pa ddulliau arolwg ymarferol y gellir eu defnyddio i'w harolygu a'u hadnabod yn y caeau. | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Marie Lindley Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |
| 17 Ebrill 19:30 | **Planhigion â'u Llên Gwerin** Canolfan Gymunedol Tŷ'r Ffowndri, Penfro | Sgwrs fin nos gan Vicky Tomlinson am y planhigion a'u llên gwerin | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Lynda Hickling Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |
| 18 Ebrill 11:00-13:00 | **Archwilio Pyllau Glan Môr** | Ymunwch â'r chwilio wrth i ni edrych yn fanwl ar y bywyd gwyllt rhyfeddol a'r rhyfeddodau naturiol ar y lan. Rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn. £2 y plentyn, oedolion am ddim. Cwrdd yn Oriel y Parc. | Oriel y Parc, Tyddewi Ffôn: 01437 720392 E-bost: info@orielyparc.co.uk |
| 21 Ebrill 11:00-15:00 | **Taith Gerdded Grŵp yn y Coetir** Cwm Gwaun Uchaf | Taith gerdded yn y coetir ger Fferm Llanerch yng Nghwm Gwaun wedi'i threfnu gan Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Dewch â chinio a dillad addas. | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Robin Taylor Ffôn: 01656 724100 E-bost: info@welshwildlife.org |

# Digwyddiadau Bioamrywiaeth ym Mawrth-Ebrill 2012

| Dyddiad | Teitl | Manylion | Cyswllt |
|---|---|---|---|
| 23 Ebrill 19:30-21:30 | **Sgwrs Bywyd Gwyllt** Canolfan Gymunedol y Patch, Hwlffordd | Sgwrs gan Colin Russell o Ganolfan Cofnodi Gwybodaeth Fiolegol Gorllewin Cymru am ei gwaith yn casglu manylion yr holl fywyd gwyllt yn ein hardal. | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Cyswllt: Robin Taylor<br>Ffôn: 01656 724100<br>E-bost: info@welshwildlife.org |
| 24 Ebrill | **Cyflwyniad i Adnabod Glöynod Byw.** Parc Gwledig Scolton | Mae Cadwraeth y Glöynod Byw yn cynnal gweithdy diwrnod ar adnabod glöynod byw. Cynhelir y gweithdy mewn tri lleoliad yng ngorllewin Cymru.<br>Dyma eich cyfle i dreulio'r diwrnod yn cael profiad ymarferol, beth bynnag fo'r tywydd. | Cadwraeth y Glöynod Byw Cymru Judy Burroughs.<br>Ffôn: 01792 642972<br>E-bost: jburroughs.bcw@btconnect.com |
| 27 – 29 Ebrill | **Glanhau Llwybr yr Arfordir** Amryw o leoliadau | Mae Cadw Cymru'n Daclus yn trefnu digwyddiad i lanhau Llwybr yr Arfordir cyn dathlu agor Llwybr Arfordir Cymru Gyfan. Cysylltwch â nhw i gael gwybodaeth am ddigwyddiad yn eich ardal chi! | Cadw Cymru'n Daclus<br>www.keepwalestidy.org<br>Ffôn: 02920 726 994<br>E-bost: coastpathcleanup@keepwalestidy.org |
| 28 Ebrill | **Cyflwyniad i Adnabod Glöynod Byw.** Neuadd Bentref Pentrecwrt, ger Llandysul | Mae Cadwraeth y Glöynod Byw yn cynnal gweithdy diwrnod ar adnabod glöynod byw. Cynhelir y gweithdy mewn tri lleoliad yng ngorllewin Cymru.<br>Dyma eich cyfle i dreulio'r diwrnod yn cael profiad ymarferol, beth bynnag fo'r tywydd.<br>Mae'r digwyddiad am ddim ond mae archebu eich lle yn hanfodol. | Cadwraeth y Glöynod Byw Cymru Judy Burroughs.<br>Ffôn: 01792 642972<br>E-bost: jburroughs.bcw@btconnect.com |

# Cylchlythyrau Bioamrywiaeth

**This newsletter is also available in English, contact Bethan for an English copy.**

*Hoffai PBSB ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r cylchlythyr hwn. Os ydych chi am ysgrifennu erthygl i'r cylchlythyr nesaf mae croeso i chi gysylltu â Ant.*

Year of the Bat
2011-2012

# Manylion Cysylltu PBSB


- **Swyddog Gweithredu Bioamrywiaeth,** Ant Rogers, Ffôn – 01437 764 551 anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk

- Bioamrywiaeth Sir Benfro gwefan www.pembrokeshire.gov.uk (chwilio - bioamrywiaeth)
- Bioamrywiaeth Cymru gwefan www.biodiversitywales.org.uk

# Aelodau PBSB

- Cymdeithas y Tirfeddianwyr
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Y Comisiwn Coedwigaeth
- Grwp Ymgynghorol Ffermio a Bywyd Gwyllt
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr – Cymru
- Cymdeithas Gymunedol Gyfyngedig 21C Sir Benfro
- Cyngor Sir Penfro
- Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu
- Ymddiriedolaeth y Tywysog - Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Llywodraeth Cymru Welsh Government
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

Ar gael hefyd mewn print mwy. Mae croeso i chi gysylltu â Ant i gael anfon copi atoch.

Ant Rogers
01437 764551